# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYMRU

**15 Mehefin 2022, 09:30 – 14:00**
**Ar-lein ar Zoom**

**AELODAU**

| | |
|---|---|
| Simone Lowthe-Thomas | Cadeirydd Pwyllgor Cymru |
| Nicola Russell-Brooks | Aelod Pwyllgor Cymru |
| Fadhili Maghiya | Aelod Pwyllgor Cymru |
| Trystan Pritchard | Aelod Pwyllgor Cymru |
| Kate Young | Aelod Pwyllgor Cymru |
| Gwenllian Lansdown-Davies | Aelod Pwyllgor Cymru |

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| John Rose | Cyfarwyddwr Cymru |
| Andrew Owen | Pennaeth Ariannu |
| Rob Roffe | Pennaeth Gwybodaeth a Dysgu |
| Elizabeth Watson | Cynorthwy-ydd Gweithredol (Cofnodion) |
| Ruth Bates | Pennaeth Cyfathrebu |
| Gareth Williams | Rheolwr Ariannu |
| Sally Williams | Rheolwr Ariannu |
| Osian Rhys | Cyfieithydd |

**1. Croeso gan y Cadeirydd**

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb.

1.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2022.

1.3 Nodwyd camau gweithredu o faterion yn codi.

1.4 Nodwyd un buddiant anghymhwyso mewn perthynas â Kate Young sy'n aelod o fwrdd WCVA mewn perthynas â Chefnogi Syniadau Gwych gan Promo Cymru.

**2. Diweddariad Portffolio**

2.1 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hadroddiadau manwl.

2.2 Holodd y Pwyllgor a ellid gwneud mwy i rannu dysgu a gwybodaeth megis y dadansoddiad a ddarparwyd ym mhapurau'r Pwyllgor. Tynnodd GLD sylw at y defnydd posibl o flogiau i rannu mewnwelediadau gan nodi sut y byddai hyn o fudd i fudiadau nad oes ganddynt yr adnoddau o bosib i wneud ymchwil tebyg.

2.3 Nododd y Pwyllgor berfformiad cymysg yn yr Arolwg o Ymgysylltiad Gweithwyr. Tynnodd JR sylw at y gwaith pellach a fyddai'n cael ei wneud i ystyried gwelliannau posibl ac y bydd y Bwrdd yn gwneud gwaith dilynol ar yr arolwg o ymgysylltiad gweithwyr ddiwedd mis Mehefin.

**3. Myfyrdodau ar y Diwrnod Strategaeth**

Nododd y Pwyllgor y crynodeb a ddarparwyd gan y tîm adnewyddu strategaeth a chytunwyd ei fod yn grynodeb cywir o'r trafodaethau.

**4. Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw (WBM 22/12)**

4.1 Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r papur a gyflwynwyd ac fe'i gwahoddwyd i ystyried y dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg gan ddeiliaid grantiau ynghylch effaith yr argyfwng costau byw a chytuno i'r ymateb ariannu arfaethedig a amlinellwyd yn y papur hwn.

4.2 Nododd y Pwyllgor fod mudiadau a'u buddiolwyr yn teimlo'r effaith. Yn ogystal â'r 3 mater, sef bwyd, trafnidiaeth ac ynni, mae pobl yn ceisio cymorth ychwanegol gyda chyngor ar reoli arian a budd-daliadau yn ogystal â materion iechyd meddwl a phryder a achosir gan yr argyfwng.

4.3 Trafododd y pwyllgor yr effaith y mae'r cynnydd mewn costau cyfalaf, ynni a thrafnidiaeth yn ei chael ar brosiectau. Mewn rhai achosion, adroddwyd am gynnydd o hyd at 40% mewn costau cyfalaf.

4.4 Nododd y Pwyllgor fod cymunedau a mudiadau yn wynebu galwadau cynyddol a bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Ystyriwyd dau opsiwn a chytunwyd i ddyrannu, (yn amodol ar yr amodau a nodir yn y papur) £2m ychwanegol i gefnogi amrywiadau grant ar gyfer deiliaid grant presennol a cheisiadau newydd am grantiau o hyd at £100,000 ar gyfer prosiectau sy'n rhedeg am hyd at 2 flynedd.

4.5 Cynigiodd y Pwyllgor gynnal adolygiad pellach ym mis Rhagfyr i ystyried a oes angen arian grant ychwanegol.

**5. Cymunedau: Capasiti, cydlyniant a mannau diogel (WBM 22/13)**

5.1 Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r heriau sy'n wynebu cymunedau oherwydd amddifadedd, tlodi, gwahaniaethau rhwng cenedlaethau gan gynnwys y cynnydd mewn troseddau casineb. Mae cymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf yn wynebu heriau wrth i bobl ifanc symud i ffwrdd gan achosi dirywiad yn y defnydd o'r iaith mewn rhai ardaloedd gwledig.

5.2 Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd gofod ffisegol a gofod rhithwir cynyddol i gefnogi cymunedau. Gallai gwahaniaethau o fewn cymunedau, a phatrymau newidiol yn y ffordd y mae pobl yn byw hefyd arwain at heriau gan gynnwys brwydro i recriwtio gweithgaredd bro.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y canfyddiadau allweddol yn ddiweddarach er mwyn llywio'r portffolio yn y dyfodol.

**6. Cefnogi Syniadau Gwych (WBM22/14)**

**6.1 Prosiect Coleg y Mynydd Du:** Mae hwn yn gais pum mlynedd yn gofyn am £ 549,419.00. Bydd y prosiect yn byrhau cadwyni cyflenwi i lenwi bylchau sgiliau a chreu swyddi newydd. Bydd ffocws ar fioamrywiaeth, gweithredu ar yr hinsawdd, maeth a lleihau gwastraff, addysgu ac allgymorth fel y gall y mudiad gyflawni gweithgaredd sy'n rhoi hwb i'w cenhadaeth gymdeithasol.

6.3 **Promo Cymru Limited;** mae hwn yn brosiect tair blynedd sy'n gofyn am £499,095.00 i wella sut y gall y trydydd sector yng Nghymru ddefnyddio dulliau digidol.

Trafododd y pwyllgor y ddau gais yn fanwl gan geisio eglurder gan swyddogion ac wedi hynny cytunodd i gefnogi'r ddau gais i'r gyllideb lawn y gofynnwyd amdani.

**7. Cynnwys Pobl Ifanc yn ein Llywodraethu – Y Camau Nesaf. (WBM 22/15)**

7.1 Nododd y Pwyllgor yr argymhellion ar gyfer cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Gronfa yng Nghymru yn y dyfodol.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi'r strategaeth llais ieuenctid a'i defnyddio fel fframwaith ar gyfer gweithio gyda thîm llais ieuenctid Cymru ac i ymestyn penodiad y pum aelod presennol tan lansiad strategaeth cronfa'r DU yn 2023.

7.3 Cytunodd y Pwyllgor â'r cynigion a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfraniadau pobl ifanc ar draws y gronfa yn amhrisiadwy, gan fod ganddynt oll gefndiroedd a safbwyntiau gwahanol.

**8. Blaen-raglen waith (WBM 22/16)**

Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i roi adborth ar unrhyw awgrymiadau ar gyfer eitemau yn y dyfodol.

**9. Adborth o Gyfarfodydd Corfforaethol**

**9.1 Pwyllgor Ariannu'r DU**

9.1.2 Nododd y Pwyllgor fod Pwyllgor Ariannu'r DU wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi rhoi cyfle i gwrdd â'r Dirprwy Gyfarwyddwr newydd, Mel Eaglesfield.

9.1.3 Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio'n bennaf ar yr adolygiad strategaeth gyda mwy o bwyslais ar Bortffolio'r DU a beth fyddai ei ddiben.

9.1.4 Nododd y Pwyllgor fod Pwyllgor Ariannu'r DU wedi trafod yr argyfwng costau byw yn y cyfarfod ac y byddai papur arall yn cael ei ystyried yn fuan. Bydd tîm ariannu'r DU yn gweithio'n agos gyda'r timau ariannu gwledydd i naill ai ddosbarthu arian yn fwy lleol neu ategu ariannu presennol.

**9.2 Cronfa Gweithredu Hinsawdd**

9.2.1 Nododd y Pwyllgor fod y Gronfa Gweithredu Hinsawdd hefyd wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi gwneud penderfyniadau ar dri grant. Bydd y rownd nesaf o ariannu yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf a bydd yn canolbwyntio ar atebion seiliedig ar natur sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

**9.3 Bwrdd y DU:-** Nododd y Pwyllgor fod y diweddariad a roddwyd o fis Mawrth, gan y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ddiwedd mis Mehefin.

9.3.2 Canolbwyntiodd trafodaeth y Bwrdd ym mis Mawrth ar y strategaeth EDI a'r broses o adnewyddu'r strategaeth.

9.3.3 Cafwyd diweddariadau ar DPA a pherfformiad, a'r cynllun corfforaethol.

9.3.4 Mae pedwar aelod bwrdd newydd yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd a dylent fod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## 10. Sesiwn gaeedig anffurfiol ar gyfer Pwyllgor Cymru.

10.1 Nododd y Pwyllgor mai pwrpas y sesiwn gaeedig oedd rhannu rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol o ran yr adolygiad o berfformiad Pwyllgor Cymru. Fodd bynnag, bydd hyn nawr yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau 1-1.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.00